Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd

Gorffennaf 2011

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- awdurdodau lleol;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen

Crynodeb **1**

Prif ganfyddiadau **2**

Argymhellion **5**

Cyd-destun **6**

Diben yr adroddiad 6
Beth ydym yn ei olygu gan ‘mwy abl a dawnus’? 6
Blaenoriaeth genedlaethol 6
Safbwynt rhyngwladol 7

1 Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus **8**

2 Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus **11**

Nodi, asesu ac olrhain 12
Polisi ac arweinyddiaeth 13
Cwricwlwm a throsglwyddo 14
Darparu adnoddau a chymorth ychwanegol i ddisgyblion 17

3 Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion **21**

4 Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru **26**

Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Atodiad 2: Enghreifftiau o wledydd Ewropeaidd

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Crynodeb

Mae'r arolwg hwn yn arfarnu effeithiolrwydd y strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion cynradd ac awdurdodau lleol i gefnogi a herio disgyblion mwy abl a dawnus.

At ei gilydd, ni chaiff y disgyblion mwyaf abl a dawnus eu herio digon ac nid oes digon o ddisgyblion yn cyflawni uwchlaw'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn amrywio gormod ledled Cymru. Yn y nifer fach o ysgolion cynradd sydd â'r ddarpariaeth orau, mae dadansoddi data a deilliannau asesu yn drylwyr yn helpu nodi disgyblion mwy abl a dawnus. Yn yr ysgolion prin hyn, caiff disgyblion mwy abl a dawnus eu cefnogi trwy ystod o ddarpariaeth ychwanegol ac fe gaiff eu cynnydd ei olrhain a'i fonitro yn ofalus. Mae rhieni yn deall dull yr ysgol ar gyfer rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion mwy abl a dawnus.

Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa fwyaf mewn ysgolion sy'n hyrwyddo dulliau unigol neu bersonol o ddysgu, ac maent yn elwa'n arbennig ar gael rheolaeth dros sut a beth maent yn ei ddysgu.

Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion cynradd, ni chaiff disgyblion mwy abl a dawnus eu nodi ac nid ydynt yn cael cymorth priodol. Nid oes gan athrawon yn yr ysgolion hyn yr arbenigedd i nodi, cefnogi neu olrhain cynnydd y disgyblion mwy abl a dawnus.

Yn aml, nid yw'r trefniadau trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu digon o barhad a dilyniant yn addysg y disgyblion mwy abl a dawnus.

Prin yw'r awdurdodau lleol sy'n defnyddio data i fonitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus neu hyrwyddo rhannu arfer orau rhwng ysgolion. Anaml y mae swyddogion gwella ysgolion yn trafod disgyblion mwy abl a dawnus yn ystod eu hymweliadau ag ysgolion.

Prif ganfyddiadau

Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus

1 Nid oes digon o ysgolion cynradd yng Nghymru yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn y pynciau craidd, sef Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. (Disgwylir iddynt gyrraedd lefel 2 yn saith mlwydd oed yng nghyfnod allweddol 1 a lefel 4 yn 11 mlwydd oed yng nghyfnod allweddol 2.) Yng nghyfnod allweddol 2, ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n cyflawni lefel 6 mewn pwnc craidd ac mae'n eithriadol o brin i ysgol ddyfarnu lefel 7 i ddisgybl am berfformiad eithriadol.

2 Mae adroddiadau arolygu ysgolion a gyhoeddwyd rhwng 2008 a 2010 yn awgrymu bod codi safonau ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus yn aml yn faes gwendid mewn ysgolion cynradd ac mae argymhellion arolygu yn aml yn ymwneud â'r maes hwn o waith ysgolion.

3 Yn y nifer fach o ysgolion lle mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni'n arbennig o dda, mae pob un o'r disgyblion yn tueddu i gyflawni safonau uchel. Y rheswm am hyn yw bod y strategaethau addysgu a dysgu sy'n cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion mwy abl a dawnus hefyd yn gwella safonau ar gyfer disgyblion o bob gallu.

Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus

4 Dim ond mewn nifer fach o ysgolion y mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni safonau digon uchel. Yn yr ysgolion hyn, cânt eu nodi'n gynnar, eu cefnogi a'u herio'n briodol, ac mae cydlynydd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn gosod targedau ar eu cyfer ac yn olrhain eu cynnydd.

5 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn tueddu i gyflawni safonau uchel pan fydd ysgolion yn defnyddio cyfuniad o asesiadau athrawon, profion safonol, arsylwadau, trafodaethau a holiaduron rhieni i nodi a gwneud diagnosis o'u cryfderau a'u doniau penodol.

6 Mae cyfathrebu effeithiol gyda rhieni yn ffactor allweddol yn yr ysgolion prin hynny lle caiff disgyblion mwy abl eu herio'n llwyddiannus i gyrraedd safonau uchel. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn cyfleu eu polisi ar gyfer cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus yn ddigon effeithiol ac nid ydynt yn hysbysu rhieni yn rheolaidd bod eu plant wedi'u nodi yn ddisgyblion mwy abl a dawnus.

7 Yn y nifer fach o ysgolion lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion abl a dawnus yn dda, mae dulliau ysgol gyfan cyson ar gyfer dysgu ac addysgu, ystod eang o weithgareddau allgyrsiol perthnasol, a chysylltiadau trosglwyddo cryf gydag ysgolion eraill. Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa fwyaf mewn ysgolion sy'n hyrwyddo dulliau unigol neu bersonol o ddysgu ac maent yn elwa'n benodol ar gael rheolaeth dros sut a beth y maent yn ei ddysgu.

8 Mae ansawdd y trosglwyddo rhwng ysgolion yn ffactor arwyddocaol yn llwyddiant disgyblion mwy abl a dawnus yn y tymor hir. Fodd bynnag, yn aml, nid yw'r trefniadau trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn aml yn darparu digon o barhad a dilyniant yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus.

9 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa'n sylweddol ar ddarpariaeth ychwanegol sydd wedi'i hanelu'n benodol at ddatblygu eu doniau ac yn cynnig cyfleoedd i weithio gyda disgyblion dawnus eraill. Fodd bynnag, mae'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth ychwanegol sy'n berthnasol i anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn rhy anghyson ledled Cymru. Mae ansawdd y cymorth ac ehangder y cyfleoedd ychwanegol yn dibynnu gormod ar argaeledd mympwyol medrau ac adnoddau mewn ysgol neu awdurdod lleol.

10 Yn rhy aml, hyd yn oed pan fydd ysgolion yn nodi disgyblion sy'n abl iawn, nid ydynt yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf. Mae ysgolion yn aml yn amharod i ddyrannu adnoddau ychwanegol i ddisgyblion a fydd yn cyflawni'r safonau disgwyliedig yn hawdd ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2.

11 Mae pob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn trefnu rhywfaint o ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus i ddisgyblion o bob cefndir. Fodd bynnag, nifer fach o ysgolion yn unig sy'n mynd ati i sicrhau bod disgyblion mwy abl o gefndiroedd difreintiedig yn cael cymorth penodol i oresgyn y rhwystrau i'w dysgu.

12 Mae llawer o ysgolion cynradd yn trefnu darpariaeth ychwanegol ar gyfer eu disgyblion mwy abl a dawnus dim ond ar ôl iddynt ddechrau cyfnod allweddol 2 yn saith mlwydd oed, er eu bod yn aml wedi nodi'r disgyblion hyn ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

13 Mae'r cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae'n dibynnu gormod ar y swyddog sy'n gyfrifol am ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ym mhob awdurdod a'r amser a neilltuir ar gyfer y gwaith hwn.

14 Nid yw digon o awdurdodau lleol yn mynd ati i hyrwyddo rhannu arfer orau rhwng ysgolion ynglŷn â chefnogi disgyblion mwy abl a dawnus. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae rhai ysgolion wedi sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, mae'r cymunedau dysgu proffesiynol hyn fel arfer wedi cael eu sefydlu'n ddiweddar ac nid oes digon o dystiolaeth o'u heffaith ar ddeilliannau disgyblion eto.

15 Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r data sydd ganddynt ar gael i fonitro'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion mwy abl a dawnus. Dim ond yn achlysurol y mae swyddogion gwella ysgolion yn trafod disgyblion mwy abl a dawnus yn ystod eu hymweliadau arferol ag ysgolion.

Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru

16 Mae strategaeth a ffrydiau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus wedi arwain at welliannau gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Ers cyhoeddi 'Ymateb i'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus' (Llywodraeth Cymru/Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, 2008), mae llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi codi proffil addysg disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r arweiniad a'r safonau ansawdd yn cynnig ffordd ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol archwilio a gwella eu darpariaeth.

17 Mae'r cymorth a ddarperir ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion gan Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE) trwy gynadleddau a hyfforddiant hefyd yn dda. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau lleol wedi manteisio'n llawn ar yr hyfforddiant hwn ac nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn ymwybodol o'r arweiniad sydd ar gael. Mae hyn yn golygu nad ydynt wedi ymateb mor effeithiol ag y bo modd i strategaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru ac nid ydynt wedi gwneud digon o gynnydd i wella'r ddarpariaeth a gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl a dawnus.

18 Mae bron pob ysgol, y mae ei darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn dda, yn defnyddio safonau ansawdd Llywodraeth Cymru/NACE yn effeithiol i gefnogi eu gwaith, gan eu defnyddio fel arfer fel cyfrwng archwilio neu hunanasesu. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n defnyddio'r safonau ansawdd i baratoi ar gyfer Dyfarniad Her NACE, ond nid yw hyn yn gyffredinol yn amharu ar y gwaith a wna'r ysgol na'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 ddarparu profiadau dysgu mwy heriol ac unigol i helpu disgyblion mwy abl a dawnus i gyflawni'r safonau uchaf;

A2 gwella'r defnydd o ddata ac asesiadau i nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus;

A3 adeiladu ar drefniadau trosglwyddo presennol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gynnig her fwy priodol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus;

A4 gwella dealltwriaeth rhieni o sut y gallant gefnogi addysg eu plentyn yn well;

A5 defnyddio cymunedau dysgu proffesiynol i rannu arfer orau yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus; a

A6 darparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth ar sut i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus.

Dylai awdurdodau lleol:

A7 hyfforddi swyddogion gwella ysgolion ar sut i nodi, cefnogi, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus; a

A8 defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu tueddiadau dros gyfnod yng nghyflawniad disgyblion mwy abl.

Cyd-destun

Diben yr adroddiad

19 Diben yr arolwg hwn yw:

- arfarnu ansawdd ac effeithiolrwydd y strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion cynradd ac awdurdodau lleol i gefnogi a herio disgyblion mwy abl a dawnus;
- amlygu enghreifftiau o arfer dda a'i heffaith ar ddisgyblion;
- nodi gwendidau a bylchau mewn darpariaethau; ac
- arfarnu pa mor llwyddiannus mae arweiniad a hyfforddiant Cynulliad Cymru wedi bod o ran gwella'r ddarpariaeth a'r safonau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

Mae'n defnyddio'r ystod o dystiolaeth a nodwyd yn Atodiad 1.

Beth ydym yn ei olygu gan 'mwy abl a dawnus'?

20 Yng Nghymru, mae'r term 'mwy abl a dawnus' yn cyfeirio at ryw 20% o ddisgyblion y mae angen cyfleoedd cyfoethog ac estynedig arnynt i ddatblygu eu galluoedd neu'u doniau mewn un maes neu fwy.

21 Ym mhob ysgol, mae angen mwy o gymorth mewn dysgu ar ddisgyblion mwy abl a dawnus na'r hyn a ddarperir ar gyfer mwyafrif y disgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn cynnwys y rhai sy'n fwy abl ar draws y cwricwlwm ac o bosibl yn gallu cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Maent hefyd yn cynnwys y disgyblion hynny sy'n dangos gallu neu sydd â dawn arbennig mewn un maes penodol neu fwy, fel cerddoriaeth, drama, celf neu chwaraeon.

Blaenoriaeth genedlaethol

22 Mae herio dysgwyr mwy abl a dawnus i berfformio'n well yn flaenoriaeth genedlaethol. Ym Mai 2008, cyhoeddwyd y ddogfen arweiniad gan Lywodraeth Cymru o'r enw 'Ymateb i'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus'. Ategodd yr arweiniad a gyhoeddwyd gan ACCAC yn 2003, 'Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad' a chan Lywodraeth Cymru yn yr un flwyddyn', 'Addysgu Disgyblion sy'n Fwy Abl a Thalentog: Cyfarwyddyd ar gyfer Awdurdodau Lleol'.

23 Mae 'Ymateb i'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus' yn darparu cyngor ymarferol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio fel offeryn datblygiadol gan ysgolion sydd wrthi'n dechrau datblygu darpariaeth ysgol gyfan ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'n rhoi strwythur a chyfarwyddyd ar gyfer cynllunio tymor hir. Gall ysgolion sydd eisoes wedi datblygu polisïau ac arferion ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ddefnyddio'r safonau ansawdd i archwilio eu darpariaeth a chynllunio ar gyfer gwella. Gall ysgolion sydd â darpariaeth sefydledig a systemau cynllunio gweithredu eu

defnyddio i asesu eu darpariaeth yn fwy ffurfiol, a gallent ddewis cael eu hasesu ar gyfer marc safon "Dyfarniad Her" yn seiliedig ar y safonau.

24 Mae sawl adroddiad arolwg diweddar gan Estyn wedi nodi diffygion mewn ysgolion nad ydynt yn cynnig digon o her i ddisgyblion mwy abl a dawnus. Er enghraifft:

- Mae 'Arfer orau mewn mathemateg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 7 oed' (2009) yn dweud nad yw athrawon bob amser yn asesu disgyblion mwy abl yn gywir nac yn rhoi gwaith iddynt sy'n eu herio digon;
- Mae 'Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed' (2009) yn cadarnhau bod disgyblion mwy abl a dawnus yn gallu cael eu dadrithio a dangos diffyg cymhelliant mewn mwyafrif o ysgolion, oherwydd bod gofyn iddynt gwblhau mwy o'r un math o waith yn rhy aml, fel ymgymryd ag ymarferion ysgrifennu hwy yn hytrach na gwneud gwaith sy'n herio eu medrau creadigol, eu medrau meddwl neu'u medrau datrys problemau; ac
- Mae 'Arloesedd yng nghyfnod allweddol 3' (2010) yn datgan mai nifer fach iawn yn unig o ysgolion uwchradd sy'n nodi disgyblion mwy abl a dawnus trwy ddata a dderbyniwyd gan eu hysgol gynradd bartner, sy'n arwain at ddisgwyliadau isel gan athrawon a darpariaeth wael i ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion hyn wrth iddynt ddechrau cyfnod allweddol 3.

Safbwynt rhyngwladol

25 Yng Nghymru, caiff ysgolion eu hannog i fodloni anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y disgyblion mwy abl a dawnus trwy gynllunio gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau ac unigolion yn eu dosbarthiadau. Mae gwledydd eraill Ewropeaidd yn darparu ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol. Mae Atodiad 2 yn disgrifio'r modd y mae rhai gwledydd Ewropeaidd yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus.

1 Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus

26 Yn Adroddiadau Blynyddol PAEM ar gyfer 2008-2009 a 2009-2010, amlygwyd tangyflawniad disgyblion mwy abl a dawnus. Nid yw digon o ddisgyblion cynradd yng Nghymru yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn y pynciau craidd, sef Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. (Disgwylir iddynt gyrraedd lefel 2 yn saith mlwydd oed yng nghyfnod allweddol 1, a lefel 4 yn 11 mlwydd oed yng nghyfnod allweddol 2.)



27 Rhwng 2004 a 2010, gwelwyd rhywfaint o welliant yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 3 ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ym mhob pwnc ac eithrio mathemateg, lle gwelwyd gostyngiad.



28 Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, er bod canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 ac yn uwch mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi cynyddu, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch wedi gostwng ym mhob pwnc. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cyflawni lefel 6 mewn un pwnc craidd neu fwy, ac mae'n eithriadol o brin i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd gyflawni lefel 7. Yn Lloegr, mae cyrhaeddiad ar y lefelau uwch hyn yn gwella.

29 Mae asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn rhoi syniad o allu disgyblion yn y pynciau craidd yn unig. Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn aml yn dangos gallu, dawn a thalent ar draws ystod ehangach o feysydd na'r pynciau craidd. Er hynny, mae canlyniadau asesiadau athrawon yn ddefnyddiol o ran nodi tangyflawni cyffredinol disgyblion mwy abl yn saith ac yn 11 mlwydd oed.

30 Mae adroddiad y Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr (PISA) yn asesu perfformiad myfyrwyr 15 mlwydd oed mewn ysgolion mewn 50 o wledydd OECD (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd). Mae adroddiadau PISA 2007 a 2010 yn nodi bod cyfran sylweddol o fyfyrwyr yng Nghymru yn cyflawni safonau islaw cyfartaledd y DU ac OECD mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth ac mae sgôr gymedrig myfyrwyr yng Nghymru gryn dipyn yn is na sgôr gymedrig disgyblion yn Lloegr. Mae'r ddau adroddiad hefyd yn canfod bod cyfran y disgyblion 15 mlwydd oed sy'n cyflawni'r lefelau uchaf mewn mathemateg a darllen

islaw cyfartaledd OECD. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad mai prin yw'r cyflawnwyr uchel yng Nghymru o'i gymharu â'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd.

31 Mae adroddiadau arolygu ysgolion a gyhoeddwyd rhwng 2008 a 2010 yn awgrymu, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn ymwybodol o'r angen i godi safonau a threfnu darpariaeth well ar gyfer eu disgyblion mwy abl a dawnus, bod hwn yn aml yn faes gwendid. Mae argymhellion yn aml yn ymwneud â gwella safonau a lefelau her ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus, hyd yn oed mewn ysgolion sy'n dda ar y cyfan. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae darpariaeth dda neu ragorol ar gyfer herio'r disgyblion hyn.

32 Mewn rhai ysgolion lle mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni'n arbennig o dda, mae safonau ar gyfer pob disgybl yn tueddu i fod yn uwch na'r cyfartaledd. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o strategaethau addysgu a dysgu sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion mwy abl hefyd yn gwella safonau ar gyfer disgyblion o bob gallu. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn disgwyl i'w disgyblion mwyaf abl gyflawni o'u gorau, ac maent hefyd yn herio pob disgybl i gyrraedd y safonau uchaf.

2 Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus

33 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn fwy tebygol o gyflawni safonau uchel mewn ysgolion lle mae'r nodweddion canlynol yn bodoli:

- nodi'n gynnar, gyda chofrestr o ddisgyblion wedi'u rhestru'n ddisgyblion mwy abl a dawnus, ynghyd â gweithredu'n gyflym i sicrhau her briodol i bob oedran;
- gosod targedau, olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr, gan ddefnyddio ystod o brofion arsylwi a phrofion safonol;
- polisi ymarferol sy'n amlinellu hawl pob disgybl i brofiad dysgu sy'n briodol o heriol ac unigol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn dod yn ddysgwyr annibynnol gan ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl, datrys problemau, creadigol a chorfforol ar lefel uwch;
- cydlynydd sydd â digon o hynafedd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ac uwch athrawon, staff addysgu, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a phartneriaid eraill cefnogol;
- dull cyson, ysgol gyfan ar gyfer dysgu gan athrawon a staff cymorth sydd wedi cael eu hyfforddi i adnabod, deall ac ymateb i anghenion disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys defnyddio amserlennu hyblyg sy'n galluogi disgyblion i ddewis gweithgareddau sy'n apelio atynt a chymysgu gyda phlant o wahanol oedrannau;
- cysylltiadau pontio da rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i godi disgwyliadau athrawon a darparu gwaith â her addas ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ar ddechrau eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd;
- lefelau priodol o adnoddau yn cael eu dyrannu i sicrhau darpariaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus; ac
- ystod eang o brosiectau allgyrsiol sy'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion mwy abl a dawnus, fel 'sgwadiau' mathemateg ac ysgrifennu, a gweithgareddau a gefnogir gan asiantaethau allanol, fel ysgolion haf a gwersylloedd chwaraeon.

Astudiaeth achos 1 – Ysgol Gynradd Ynystawe, Abertawe

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Ynystawe yn rhan isaf Cwm Tawe ac mae ganddi 195 o ddisgyblion ar y gofrestr o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i herio pob disgybl i gyflawni'r safonau uchaf, yn cynnwys 17 disgybl y nodwyd yn ffurfiol eu bod yn fwy abl a dawnus. Mae'r pennaeth, y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol a'r cydlynydd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn sicrhau bod pob un o'r staff wedi ymrwymo'n llawn i ymagwedd yr ysgol, ac yn darparu hyfforddiant a mentora ar gyfer staff newydd.

Gweithgaredd

Mae ymagwedd ysgol gyfan at ddysgu, o'r enw 'Effaith Leonardo', yn datblygu medrau meddwl beirniadol a medrau dysgu annibynnol disgyblion. Yn ystod tymor cyntaf pob blwyddyn, mae disgyblion yn caffael medrau a gwybodaeth am destun

penodol. Yn yr ail dymor, maent yn rheoli eu dysgu eu hunain am y testun. Defnyddir y trydydd tymor i ddatblygu medrau gwyddoniaeth a medrau creadigol mewn perthynas â'r testun. Mae athrawon yn annog creadigrwydd, medrau ymchwil, archwilio a datrys problemau disgyblion trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r pennaeth yn arfarnu safonau trwy arsylwi gwersi yn uniongyrchol trwy fonitro cynnyrch disgyblion. Defnyddir y wybodaeth hon i sicrhau trosglwyddo didrafferth rhwng grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol. Mae'r ysgol yn defnyddio diwrnod hyfforddiant mewn swydd bob blwyddyn i staff arfarnu eu gwaith, dadansoddi deilliannau disgyblion a chynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- arweinyddiaeth gymhellol sy'n sicrhau ymagwedd ysgol gyfan ac ymrwymiad gan y staff;
- dealltwriaeth ar y cyd o'r math o addysgu sy'n cefnogi ac yn herio disgyblion mwy abl i gyflawni ar y lefelau uchaf;
- ymagweddau cyson y mae disgyblion a rhieni yn eu deall; ac
- ymagweddau creadigol ar gyfer datblygu medrau meddwl, datrys problemau a llefaredd lefel uwch.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae'r disgyblion mwyaf abl yn cyflawni lefel 6 mewn un pwnc craidd neu fwy ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;
- mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o destunau penodol ac mae eu medrau mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig yn aml uwchlaw'r lefelau disgwyliedig am eu hoedran; ac
- mae gwaith disgyblion mewn celf a dylunio yn greadigol a dychmygus.

Nodi, asesu ac olrhain

34 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn fwy tebygol o gyflawni safonau uchel pan fydd ysgolion yn defnyddio cyfuniad o asesu ffurfiannol, profion safonol, arsylwi staff, trafodaethau, a holiaduron rhieni i nodi a gwneud diagnosis o'u cryfderau, eu gwendidau a'u doniau penodol. Mae'n bwysig olrhain cynnydd disgyblion yn agos a darparu tasgau sy'n briodol o heriol a chymhellol. Mewn lleiafrif bach iawn o ysgolion, mae gan y disgyblion mwyaf abl gynlluniau addysg unigol, sy'n cael eu hadolygu bob tymor. Yn gyffredinol, mae ysgolion sy'n defnyddio cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion mwy abl yn tueddu i olrhain cynnydd disgyblion yn fwy cywir na'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio. O ganlyniad, mae gan staff a rhieni ddealltwriaeth gliriach o gynnydd y disgyblion hyn, yn ogystal â'r camau nesaf yn eu dysgu.

Astudiaeth achos 2 – Ysgol y Wern, Llanisien, Caerdydd

Cyd-destun

Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n derbyn nifer gymysg o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd gymharol freintiedig, a disgyblion eraill o gefndiroedd llai difreintiedig. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol er mwyn i bob disgybl allu dod o hyd i rywbeth y mae'n ei fwynhau. Mae ganddi system effeithiol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd disgyblion, sy'n galluogi athrawon i nodi disgyblion mwy abl a dawnus a darparu rhaglen astudio sy'n cynnwys her addas ar eu cyfer.

Gweithgaredd

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ddulliau i nodi ac asesu anghenion penodol pob un o'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau ffocysedig, marcio effeithiol, trafodaethau rhwng staff a disgyblion, asesiadau athrawon, holiaduron rhieni a phrofion safonol. Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn systematig ac yn rheolaidd. Mae pob un o'r staff yn defnyddio data a gwybodaeth am asesu yn ddadansoddol i nodi a thargedu meysydd i'w gwella. Yn 2009, nododd uwch arweinwyr fod angen codi safonau mewn medrau llythrennedd, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl. Rhoddodd yr arweinydd pwnc ar gyfer Cymraeg ac ymgynghorydd yr awdurdod lleol hyfforddiant i'r staff ar ysgrifennu estynedig. Fe wnaeth yr arweinydd pwnc fonitro gwersi Cymraeg a rhannu ei harsylwadau, a chytunodd pawb ar feini prawf ar gyfer gwella. Creodd y staff a'r disgyblion ganllawiau ar gyfer gosod targedau unigol a oedd yn canolbwyntio ar fedrau llythrennedd penodol. Daeth staff yn gyfarwydd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu medrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch. Fe wnaeth yr arweinydd pwnc arwain sesiynau ar asesu a safoni ysgrifennu. Cymerodd y staff ran mewn sesiynau safoni gyda'r ysgol uwchradd bartner. Cafodd cynllunio athrawon ei fonitro bob wythnos i sicrhau parhad a dilyniant. Mae athrawon yn rhannu enghreifftiau o ysgrifennu da gyda disgyblion yn rheolaidd ac mae disgyblion yn cytuno ar feini prawf llwyddiant er mwyn iddynt allu asesu eu gwaith eu hunain yn gywir.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- deilliannau gwell ar gyfer pob disgybl, er bod y datblygiadau wedi'u hanelu at ddisgyblion mwy abl;
- hyfforddiant staff o ansawdd uchel, sy'n arwain at gefnogaeth lawn i'r strategaeth; a
- ffocws clir ar wella safonau ar gyfer pob disgybl.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- roedd gwelliant o 16 pwynt canran yng nghyfran y disgyblion 11 mlwydd oed

- sy'n cyflawni lefel 5 (un lefel uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran) mewn Cymraeg mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn 2010 o'i gymharu â 2009;
- gwelwyd gwelliant sylweddol yn strwythur brawddegau disgyblion yn eu Cymraeg ysgrifenedig; ac
- roedd llawer o ddisgyblion yn trafod ac yn penderfynu ar eu meini prawf llwyddiant eu hunain yn hyderus.

Polisi ac arweinyddiaeth

35 Mae ysgolion sy'n sicrhau bod pob un o'r rhieni yn deall y polisi ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a dawnus fel arfer yn osgoi camddealltwriaeth a'r gwrthdaro posibl a allai godi pan fydd ysgolion yn trefnu darpariaeth ychwanegol neu wahanol ar gyfer cyfran o'u disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn cyfleu eu polisi a'u harferion ar gyfer cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus yn ddigon effeithiol. Y rheswm am hyn yw amgyffrediad o ymateb negyddol posibl gan leiafrif bach o rieni. Mae ysgolion sydd â meini prawf clir ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a dawnus hefyd yn darparu ystod eang o gyfleoedd yn aml fel bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu llwyddo ar lefel sy'n briodol i'w gallu.

36 Mae mwyafrif yr ysgolion yng Nghymru yn ystyried anghenion disgyblion mwy abl a dawnus fel rhan o'u darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr achosion hyn, mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol neu'r cydlynydd anghenion arbennig fel arfer yn goruchwylio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae ysgolion eraill yn ystyried disgyblion mwy abl a dawnus ar wahân ac mae ganddynt gydlynydd gwahanol. Yn y naill achos neu'r llall, mae'r unigolyn sy'n gyfrifol fel arfer yn uwch arweinydd yn yr ysgol, sy'n gallu goruchwylio polisi ac arfer yn cael eu rhoi ar waith. Ar yr amod bod gan y cydlynydd wybodaeth, medrau a dealltwriaeth ddigonol, a'i fod yn cymell staff a disgyblion yn llwyddiannus, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yn y ffordd y caiff ei gydlynu.

37 Efallai bod lleiafrif bach o ddisgyblion, nad ydynt yn fwy abl a dawnus, yn cael eu hannog yn ormodol gan eu rhieni i berfformio ar lefel sydd y tu hwnt iddynt. Yn aml, mae'r disgyblion hyn yn teimlo eu bod wedi methu pan nad ydynt yn bodloni disgwyliadau afresymol. Yn achlysurol iawn, mae ysgolion yn dewis symud disgyblion i fyny un grŵp blwyddyn neu fwy fel eu bod yn symud trwy'r ysgol gyda disgyblion hŷn. Weithiau, mae disgyblion felly yn methu ymdopi yn emosiynol ac yn gymdeithasol, gan arwain at arwahanrwydd a rhwystredigaeth.

Cwricwlwm a throsglwyddo

38 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa ar ddulliau unigol neu bersonol o ddysgu oherwydd eu bod yn elwa'n benodol ar gael rheolaeth dros y modd y maent yn dysgu. Mewn ysgolion sydd â darpariaeth wedi'i chyfeirio tuag at ddysgu unigol, mae dull ysgol gyfan yn aml yn bodoli ar gyfer addysgu medrau, yn enwedig medrau meddwl, datrys problemau a dysgu. Caiff strategaethau asesu ar gyfer dysgu eu hymgorffori'n gadarn a'u defnyddio i helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut y gallant wella. Mae disgyblion ac athrawon yn gosod targedau heriol sy'n berthnasol i'w hanghenion penodol, ac mae plant yn mynd ati i'w monitro a'u hadolygu. Mae

disgyblion yn ymgymryd â hunanasesu ac asesu cyfoedion yn rheolaidd ac yn siarad am eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn hyderus a chyda dealltwriaeth. Maent yn cyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm o oedran cynnar, yn aml trwy drafod yr hyn y maent eisoes yn ei wybod am destun a'r hyn yr hoffent ei wybod. Mae disgyblion yn creu gweoedd testun dosbarth y mae staff yn eu defnyddio i lywio'r cynllunio. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn ymgorffori cyfleoedd i unigolion a grwpiau o ddisgyblion ddatblygu medrau penodol ar lefelau priodol tra byddant yn dysgu am eu testun arfaethedig.

Astudiaeth achos 3 – Ysgol Gynradd Eveswell, Casnewydd

Cyd-destun

Ysgol fynediad, fawr â dau ddosbarth yw Ysgol Gynradd Eveswell, ac mae ganddi 433 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae pob un o'r staff wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion mwy abl a dawnus.

Mae'r ysgol wedi datblygu strategaethau dysgu unigol yn llwyddiannus. Mae staff yn annog disgyblion i gyflawni'r safonau gorau. Trwy nodi gallu a dawn pob disgybl, mae pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod wedi'u cymell yn fwy i ddysgu, ac yn dangos mwy o ddiddordeb ynddo. Mae'r cydlynydd ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus yn monitro ac yn arfarnu'r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn ofalus.

Gweithgaredd

Ar ôl dadansoddi asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn 2008 ar gyfer disgyblion yn 11 mlwydd oed, nododd y cydlynydd fod bechgyn yn tangyflawni ar lefel 5 o'i gymharu â merched.

Adolygodd yr ysgol ei gweithdrefnau ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a dawnus ac roedd staff yn teimlo bod angen iddynt ddefnyddio mwy na phrofion safonol yn unig yn eu gweithdrefnau. O ganlyniad, canolbwyntiodd yr hyfforddiant ar ddadansoddiad gwell o ddeilliannau disgyblion gan ddefnyddio ystod o asesiadau, fel profion gallu gwybyddol (CATS) i arfarnu medrau rhesymu disgyblion a defnydd mwy diagnostig o sgorau ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 4.

Fel hyn, nododd yr ysgol nifer uwch o fechgyn nad ystyriwyd yn flaenorol eu bod yn fwy abl a dawnus. Dewisodd y staff ystod ehangach o adnoddau sy'n 'addas ar gyfer bechgyn', yn enwedig nofelau dosbarth, yn sylfaen ar gyfer addysgu Saesneg i gymell a herio'r bechgyn. Fe wnaeth yr ysgol hefyd wella ei hadnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) er mwyn ennyn diddordeb bechgyn mewn gweithgareddau mwy heriol.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- nodi tangyflawniad bechgyn o'i gymharu â merched;

- defnyddio ystod o dechnegau asesu a dulliau eraill i nodi disgyblion mwy abl a dawnus yn gywir;
- cymorth gan uwch arweinwyr i ariannu adnoddau ychwanegol; a
- nodi meini prawf llwyddiant clir y caiff gwelliannau eu mesur yn eu herbyn.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae'r ysgol yn awr yn nodi disgyblion mwy abl a dawnus yn fwy cywir; ac
- mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran (lefel 5 neu'n uwch) wedi cau i 2 bwynt canran.

39 Mae ansawdd y trosglwyddo rhwng ysgolion yn ffactor arwyddocaol yn llwyddiant pob un o'r disgyblion yn y tymor hir. Mae hyn yn arbennig o wir am y rhai sy'n fwy abl a dawnus oherwydd eu bod yn rhoi her hyd yn oed yn fwy i'r ysgol sy'n derbyn y disgyblion. Pan fydd cysylltiadau rhwng ysgolion wedi hen ennill eu plwyf ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion ochr yn ochr ag agweddau cymdeithasol ar drosglwyddo, mae'r ysgol sy'n derbyn y disgyblion yn adeiladu ar y wybodaeth y mae'n ei derbyn am y disgyblion. Mae hyn fel arfer yn arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer y disgyblion hyn. Fodd bynnag, pan fydd systemau trosglwyddo yn wael a'r ysgol sy'n derbyn y disgyblion yn 'dechrau o'r dechrau' gyda phob un o'r disgyblion newydd, y disgyblion mwy abl sy'n tueddu i ddioddef fwyaf. Mae'r gwaith yn rhy hawdd iddynt ac nid yw disgwyliadau athrawon uwchradd yn ddigon uchel. Mae hyn yn arwain at rwystredigaeth ac agweddau negyddol at yr ysgol yn aml, sy'n gallu arwain at ymddieithrio o ddysgu.

Astudiaeth achos 4 – 'Prosiect Awyr Las' yng nghlwstwr Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin

Cyd-destun

Mae disgyblion o'r clwstwr o ysgolion cynradd yn Nyffryn Aman yn symud ymlaen i'w cyfnod dysgu nesaf yn 11 mlwydd oed pan fyddant yn dechrau yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman. Mae pob un o'r ysgolion cynradd yn y clwstwr yn darparu addysg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn bennaf.

Gweithgaredd

Yn ystod tymor yr haf bob blwyddyn, mae pob ysgol gynradd yn y clwstwr yn defnyddio profion safonol, arsylwadau athrawon a thrafodaethau staff i nodi'r 10% mwyaf abl o'i disgyblion ym Mlwyddyn 5. Mae'r disgyblion ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau heriol, sy'n cynnwys adeiladu tîm, datblygu medrau arweinyddiaeth, ymchwiliadau mathemategol, gweithdai drama ac ymweliad preswyl. Nod pob un ohonynt yw gwella medrau meddwl beirniadol a medrau dysgu lefel uwch y disgyblion mwy abl, ac annog datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol hefyd.

Y cydlynydd ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus yn yr ysgol uwchradd sy'n arwain y prosiect ac fe gaiff gefnogaeth gan staff o'r ysgolion cynradd a darparwyr arbenigol. Mae athrawon yn sicrhau cefnogaeth y rhieni trwy gyfathrebu da trwy lythyr a chyswllt personol. Caiff llwyddiant y prosiect ei fonitro trwy holiaduron disgyblion a dadansoddi profion medrau safonol ym Mlwyddyn 7. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion trwy gydol yr ysgolion cynradd ac i mewn i'r ysgol uwchradd gan ddefnyddio'r un system codau lliw.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- cysondeb rhwng ysgolion cynradd o ran y modd y maent yn nodi disgyblion mwy abl a dawnus;
- ffocws ar fedrau meddwl beirniadol a medrau dysgu lefel uwch;
- perthnasoedd cadarnhaol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd; a
- defnydd cyson o system olrhain electronig gytûn gan bob ysgol, sy'n golygu bod modd trosglwyddo data a monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae gwelliant wedi bod ym medrau dysgu'r disgyblion, yn enwedig llefaredd, gwrando a meddwl;
- mae disgyblion yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol ac yn ymdopi'n dda â throsglwyddo; ac
- mae trosglwyddo data yn effeithiol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn rhoi gwybodaeth gywir i athrawon, ac mae hyn yn eu helpu i sefydlu disgwyliadau uchel o ddisgyblion mwy abl a dawnus.

Darparu adnoddau a chymorth ychwanegol i ddisgyblion

40 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, caiff disgyblion fynediad cyfartal i ddefnyddio darpariaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'w hanghenion. Fodd bynnag, mae'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth ychwanegol yn rhy anghyson ledled Cymru. Er enghraifft, weithiau mae clystyrau o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio un ffrwd ariannu. Er mwyn i bob ysgol yn y clwstwr gael yr un manteision ariannol, gallai'r grŵp gytuno i ariannu nifer gyfartal o ddisgyblion mwy abl a dawnus o bob ysgol i fynychu digwyddiad penodol. Gallai hyn olygu nad yw rhai disgyblion mwy abl yn cael cyfle i fynychu, tra bo disgyblion eraill na chawsant eu nodi yn fwy abl a dawnus, yn llenwi'r lleoedd sydd ar gael.

41 Yn rhy aml, mae ysgolion yn nodi disgyblion sy'n fwy abl, ond nid ydynt yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf. Mae bron pob ysgol yn neilltuo adnoddau ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ond mae rhai ysgolion yn amharod i wneud yr un peth i gefnogi disgyblion mwy abl a dawnus. Y rheswm am hyn yw eu bod yn hyderus y bydd disgyblion mwy abl yn cyflawni'r safonau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2 heb ddarpariaeth

ychwanegol. Mewn llawer o achosion, gallai'r disgyblion hyn gyflawni safonau hyd yn oed yn well pe bai'r ysgolion yn eu cefnogi'n briodol.

42 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa'n sylweddol ar ddarpariaeth allgyrsiol ychwanegol sydd wedi'i hanelu'n benodol at eu doniau ac yn cynnig cyfleoedd i weithio gyda disgyblion eraill dawnus. Mae cerddorion dawnus yn elwa'n sylweddol ar chwarae mewn ensembles yn rheolaidd, mae ysgrifenwyr abl yn ffynnu trwy weithio ochr yn ochr ag awduron a beirdd, ac mae angen hyfforddiant a chystadleuaeth ar ddisgyblion â galluoedd mewn chwaraeon i wella eu medrau. Fodd bynnag, mae'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth ychwanegol sy'n berthnasol i anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn anghyson ledled Cymru. Mae ansawdd cymorth ac ehangder y cyfleoedd ychwanegol yn dibynnu gormod ar argaeledd mympwyol y medrau a'r adnoddau mewn ysgol, clwstwr o ysgolion neu awdurdod lleol.

43 Nodwyd bod tangyflawniad ymhlith disgyblion mwy abl o gefndiroedd difreintiedig yn Adroddiad Blynyddol Estyn 2008-2009. Dywed pob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt fod y ddarpariaeth ychwanegol ar gael i ddisgyblion o bob cefndir. Ym mhob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, ni wrthodwyd mynediad i unrhyw ddarpariaeth sydd ar gael i unrhyw ddisgyblion, ac mae tystiolaeth o adroddiadau arolygu yn cadarnhau bod bron pob ysgol yn cynnig cyfle cyfartal i'w disgyblion.

44 Fodd bynnag, nifer fach o ysgolion yn unig sy'n mynd ati i sicrhau bod disgyblion mwy abl o gefndiroedd difreintiedig yn cael cymorth penodol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys grwpiau meithrin (i wella ymddygiad disgyblion mwy abl sy'n ei chael yn anodd cyflawni), arweiniad i deuluoedd, gweithgareddau allgyrsiol ychwanegol mewn grwpiau bach sydd wedi'u teilwra yn unol â'u doniau penodol, a chymorth ffocysedig ar gyfer pynciau y mae disgyblion yn tangyflawni ynddynt. Mae'r ysgolion hyn yn nodi potensial disgyblion ac yn cydnabod bod anfantais o un math neu'r llall yn eu rhwystro rhag llwyddo.

Astudiaeth achos 5 – Ysgol Gynradd Cwmclydach, Rhondda Cynon Taf

Cyd-destun

Mae'r ysgol mewn ardal sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol yng Nghwm Rhondda. Mae dros 40% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae niferoedd uwchlaw'r cyfartaledd o blant y gofelir amdanynt a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol.

Gweithgaredd

Roedd anawsterau ymddygiadol yn atal dysgu effeithiol un disgybl y gofelir amdano y nodwyd ei fod yn fwy abl a dawnus. Defnyddiodd y pennaeth a'r cydlynydd ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus gynllun addysg unigol y plentyn i weithio'n agosach gyda'r cynhaliwr, y disgybl a'r staff. Canolbwyntiodd y cynllun addysg unigol ar gefnogi'r disgybl i wella ei ymddygiad a'i waith.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- cyfathrebu effeithiol iawn rhwng yr ysgol a chynhaliwr y disgybl, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd i gefnogi'r cynhaliwr i weithio gyda'r plentyn gartref;
- cynnwys yr holl gyfranogion yn y cyfarfod – y disgybl, y cynhaliwr, y pennaeth, y cydlynydd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus a'r athro dosbarth; a
- chael y cynhaliwr i weithio gartref gyda'r disgybl ar brosiectau, a datblygu medrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch y disgybl ymhellach.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- fe wnaeth agwedd y disgybl at ei waith, ei gymhelliant a'i gyflawniad wella'n sylweddol.

45 Mae llawer o ysgolion cynradd yn trefnu darpariaeth ychwanegol ar gyfer eu disgyblion mwy abl a dawnus ar ôl iddynt ddechrau cyfnod allweddol 2 yn saith mlwydd oed, er eu bod yn aml yn nodi'r disgyblion hyn ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn credu bod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn galluogi athrawon a staff cymorth i fodloni gwahanol anghenion unigolion yn llwyddiannus heb fod angen darpariaeth ychwanegol. Mewn egwyddor, dylai hyn fod yn wir, lle mae disgwyliadau a thargedau yn uchel, caiff cyfleoedd ar gyfer gwahanol alluoedd eu cynllunio mewn modd gofalus iawn a hyblyg, ac mae staff yn fedrus yn herio disgyblion, yn asesu eu cynnydd yn gywir ac yn adeiladu ar fedrau disgyblion yn systematig. Yn ymarferol, fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn darparu gweithgareddau sy'n ymestyn eu dysgu neu'n datblygu eu medrau lefel uwch yn ddigon da o oedran cynnar ar gyfer y disgyblion mwyaf abl.

Astudiaeth achos 6 – Ysgol Fabanod Glan Gele, Conwy

Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghonwy. Mae gan dros 30% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yr ysgol oedd yr ysgol fabanod gyntaf yn ddiweddar i ennill Dyfarniad Her y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE) Cymru. Y pennaeth yw'r cydlynydd ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus ac mae'n sicrhau bod polisi a strategaethau'r ysgol yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws yr ysgol. Cydnabyddir bod gan bron i hanner y disgyblion allu neu ddawn benodol ac fe gânt gyfle i fanteisio ar ddarpariaeth ychwanegol yn yr ysgol. Er bod hyn yn aml mewn meysydd traddodiadol o'r cwricwlwm, fel mathemateg, darllen neu chwaraeon, caiff doniau eraill llai cyffredin eu hannog hefyd, fel gallu wrth ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r ysgol hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion sydd o bosibl yn fwy abl, ond yn ymddwyn yn wael.

Gweithgaredd

Nododd yr ysgol grŵp o ddeuddeg bachgen ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 oedd â'r potensial i gyflawni uwchlaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'u hoedran mewn Saesneg mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ond nid oeddent yn gwneud cynnydd cystal â'r disgwyl. Fe wnaethant fynychu sesiwn lythrennedd i fechgyn yn unig unwaith yr wythnos. Paratodd yr athro gynllun addysg i'r grŵp a rannwyd gyda rhieni. Mae rhieni'n cytuno'n llawn, yn deall diben y grŵp ac yn cael eu cefnogi i helpu eu meibion gartref.

Mae'r bechgyn yn helpu dewis testunau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn eu hysgogi, fel teithio i'r gofod. Mae disgwyliadau'r athro yn uchel, cyflymder y wers yn heriol a'r gweithgareddau'n cael eu hamseru i gynnal ffocws. Caiff gwersi eu cynllunio'n ofalus fel eu bod yn cysylltu'n agos â dysgu blaenorol ac yn annog datblygu llythrennedd a medrau eraill, fel meddwl creadigol a dylunio graffeg. Mae disgyblion yn gweithio gydag ystod o arbenigwyr, fel dylunwyr graffeg masnachol, lle bynnag y bo modd, fel eu bod bob amser yn gweld enghreifftiau o waith o ansawdd uchel.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- nodi materion y mae angen mynd i'r afael â nhw yn gywir;
- annog mentro mewn addysgu a dysgu; a
- chanolbwyntio ar fedrau siarad, darllen ac ysgrifennu lefel uwch.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- gwelwyd gwelliant yn ysgrifennu a sillafu'r disgyblion; a
- llwyddodd hanner y grŵp i gyflawni lefel 3 mewn Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol a chyflawnodd y disgyblion eraill yn dda (ar lefel 2a sy'n ymylu ar lefel 3).

3 Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

46 Mae'r cymorth a'r her y mae awdurdodau lleol yn eu darparu ar gyfer eu hysgolion i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae pob awdurdod lleol yn yr arolwg hwn wedi ymrwymo mewn egwyddor i'r agwedd hon ar eu gwaith. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau swyddog gwella ysgolion sydd â chyfrifoldeb cyffredinol i weithredu fel cydlynydd i ddatblygu effeithiolrwydd ysgolion i wella cyflawniad disgyblion mwy abl a dawnus, ond mae'r adnoddau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer eu gwaith yn gyfyngedig.

47 Mae'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir gan gydlynydd yr awdurdod lleol ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus yn dibynnu ar y flaenoriaeth y mae'r awdurdod lleol yn ei rhoi i ddarpariaeth, medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y cydlynydd, a'r amser a neilltuir ar gyfer gwneud y gwaith hwn. Mae gan rai awdurdodau lleol gydlynwyr effeithiol a phrofiadol gyda systemau sefydledig ar waith i gefnogi gwaith ysgolion yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae gan y cydlynwyr hyn lawer o gyfrifoldebau eraill ac maent yn gwneud y gwaith hwn fel rhan fechan o'u rôl ehangach mewn cefnogi ysgolion. Mewn rhai awdurdodau lleol, nid yw'r unigolyn sy'n gyfrifol wedi cael hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, nid oes gan y swyddogion dan sylw ddigon o hyder, medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth bob amser i gefnogi ysgolion yn y maes hwn.

48 Prin yw'r awdurdodau lleol sy'n mynd ati i annog ysgolion i gael eu hasesu ar gyfer Dyfarniad Her NACE. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod paratoi'r portffolios sydd eu hangen fel rhan o'r broses asesu yn rhy feichus a chostus. Serch hynny, lle mae awdurdodau lleol wedi annog ysgolion i gynnal yr asesiad, mae wedi bod yn fuddiol i'r ysgolion ac mae wedi sicrhau bod yr ysgol gyfan wedi canolbwyntio ar ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion.

49 Mae lleiafrif cydlynwyr awdurdodau lleol yn trefnu rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff ysgolion, gan ddefnyddio arbenigedd arbenigwr o NACE. Yn gyffredinol, mae'r rhaglenni hyn yn darparu hyfforddiant o ansawdd uchel ac yn helpu sicrhau lefelau da o bresenoldeb gan athrawon. Nid yw'r lefel hon o gymorth, fodd bynnag, yn gyffredin ymhlith mwyafrif yr awdurdodau lleol. Mewn rhai awdurdodau lleol, nid yw'r gwaith hwn yn cael ei weld yn flaenoriaeth. Dim ond yn ddiweddar y mae rhai awdurdodau lleol wedi nodi cydlynydd. Mewn achosion felly, megis dechrau datblygu o hyd y mae polisïau a gweithdrefnau.

Astudiaeth achos 7 – Awdurdod lleol Blaenau Gwent

Cyd-destun

Blaenau Gwent yw un o'r awdurdodau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mewn tair yn unig o'i 27 ysgol gynradd y mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim islaw cyfartaledd Cymru. Mae cydlynydd yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn cynrychioli Cymru ar fwrdd ymddiriedolwyr NACE. Mae'r cydlynydd yn darparu polisi ac adnoddau defnyddiol ar gyfer yr holl ysgolion yn yr awdurdod, yn cynnwys holiaduron rhieni a disgyblion, a rhaglen hyfforddi. Mae'r

cydlynydd yn annog pob ysgol i gydnabod bod ganddynt ddisgyblion sy'n fwy abl a dawnus.

Gweithgaredd

Yn 2008, archwiliodd yr ymgynghorydd bob ysgol yn yr awdurdod lleol. Sefydlwyd gweithgor i ysgrifennu llawlyfr ar gyfer ysgolion ar ddefnyddio arweiniad Llywodraeth Cymru. Darparwyd ystod o adnoddau argymelledig ar gyfer pob ysgol.

Mae cydlynydd yr awdurdod lleol yn trefnu cynadleddau blynyddol ar gyfer penaethiaid a chydlynwyr ysgol. Yn y cynadleddau, mae arbenigwyr yn gwneud cyflwyniadau ar faterion cyfoes mewn addysg disgyblion mwy abl a dawnus.

Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i ysgolion nodi a chofrestru pob un o'u disgyblion mwy abl a dawnus a rhoi eu henwau ar eu cofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus bob amser yn ffocws ar gyfer ymweliadau'r ymgynghorydd cyswllt ysgolion. Mae'r cydlynydd yn mynd ati i annog rhannu arfer dda rhwng ysgolion. Caiff pob ysgol gylchlythyrau rheolaidd, ac mae pum ysgol wedi sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus fel ffocws. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn datblygu cronfa ddata i ysgolion ei defnyddio i olrhain cynnydd y disgyblion hyn.

Er bod yr awdurdod lleol yn gymharol fach, mae ystod dda o ddarpariaeth ychwanegol yn bodoli'n ganolog ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Er bod y cyllid ar gyfer gweithgareddau canolog yn brin, mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth ac yn cyfrannu'n ariannol tuag at eu cost.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- ymrwymiad yr awdurdod lleol i addysg disgyblion mwy abl a dawnus o gefndiroedd difreintiedig;
- gwybodaeth, arbenigedd ac ymrwymiad cydlynydd yr awdurdod lleol sydd wedi annog bron pob ysgol yn yr awdurdod i wella eu darpariaeth; ac
- athroniaeth gynhwysol lle mae athrawon yn herio disgyblion mwy abl i godi safonau disgyblion o bob gallu.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae mwyafrif yr ysgol yn awr yn trefnu darpariaeth dda neu well ar gyfer eu disgyblion mwy abl a dawnus, gan arwain at safonau gwell; ac
- mae cynrychiolwyr o bron pob ysgol yn yr awdurdod yn mynychu cynadleddau ac yn defnyddio'r deunyddiau a'r adnoddau a ddarperir yn effeithiol yn eu hysgolion.

50 Mae rhai awdurdodau lleol wedi ffurfio grwpiau ffocws sy'n cyfarfod yn rheolaidd i fynd i'r afael â darpariaeth well ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae cyfrifoldebau'r grwpiau yn amrywio, ond yn yr enghreifftiau gorau, maent yn datblygu polisïau, yn trefnu digwyddiadau arbennig, yn creu deunyddiau ac adnoddau hyfforddi ac yn galluogi rhannu arfer dda rhwng ysgolion.

51 Mae dau awdurdod lleol yn defnyddio ymgynghorwyr, nad ydynt yn gyflogeion amser llawn yn yr awdurdod lleol, i gefnogi ysgolion sydd â disgyblion mwy abl a dawnus. Maent yn trefnu gweithgareddau, digwyddiadau a chlybiau allgyrsiol ar gyfer y disgyblion hyn.

Astudiaeth achos 8 – Awdurdod lleol Sir Benfro

Cyd-destun

Er 2002, mae awdurdod lleol Sir Benfro wedi cyflogi cyn-ymgynghorydd i gydlynu strategaethau a dulliau ysgol gyfan i gefnogi disgyblion mwy abl a dawnus ar draws yr awdurdod. Mae bron pob ysgol yn manteisio ar y cymorth a'r gweithgareddau.

Gweithgaredd

Mae llawer o ysgolion yn Sir Benfro yn cynnal "Clybiau Cyffro" (Buzz Clubs) ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 a "Buzzlings" ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 1. Clybiau allgyrsiol yw'r rhain sy'n cynnig cyfleoedd wythnosol i ddisgyblion mwy abl a dawnus gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau heriol.

Mae'r ymgynghorydd yn trefnu Diwrnodau Her Cyffro pan fydd disgyblion o Glybiau Cyffro yn cyfarfod mewn lleoliad dynodedig i gymryd rhan mewn her fawr. Yn ystod diwrnod "Dewiniaeth Ddigidol", er enghraifft, fe wnaeth y disgyblion ddylunio a phoblogi man ar borth addysgol yr awdurdod lleol ar y we wedi'i anelu at gefnogi disgyblion mwy abl a dawnus a'u teuluoedd. Mae disgyblion yn paratoi a gwneud gwaith ymchwil cyn y digwyddiad ac yn cwblhau prosiectau ar ôl yr her.

Digwyddiad blynyddol yw'r Ffair Fenter, a gynhelir mewn man siopa yn Hwlffordd ac fe'i cefnogir gan fusnesau lleol a'r cyhoedd. Mae disgyblion yn datblygu eu syniadau busnes trwy gydol y flwyddyn ac yn gwerthu eu cynnyrch yn y ffair.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- cydlynu gweithgareddau yn effeithiol ar draws yr awdurdod;
- gwybodaeth y cydlynydd am y ddarpariaeth sydd ar gael ym mhob ysgol;
- darpariaeth gynlluniedig ysgolion ar gyfer eu disgyblion mwy abl a dawnus, sy'n canolbwyntio ar fedrau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau lefel uwch; a
- chyfle cyfartal i bob ysgol fanteisio ar y ddarpariaeth.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae llawer o ysgolion yn yr awdurdod lleol yn darparu gweithgareddau allgyrsiol da ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus;
- caiff ysgolion gymorth a hyfforddiant da ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus; ac
- mae unigolion wedi cael eu cymell i ddatblygu eu doniau yn ddiweddarach mewn bywyd. Er enghraifft, fe wnaeth disgybl â dawn mewn celf a dylunio sefydlu busnes gemwaith cartref llwyddiannus ar ôl cymryd rhan yn y Ffair Fenter.

52 Mae llawer o awdurdodau lleol yn trefnu gweithgareddau ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Ers sawl blwyddyn, mae disgyblion â doniau cerddorol wedi elwa ar ensembles cerddoriaeth sirol. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn awr wedi ymestyn y ddarpariaeth gerddoriaeth hon ledled y sir i gynnwys ystod ehangach o gyfleoedd fel 'sgwadiau' ysgrifennu sy'n cynnig cyfleoedd rheolaidd i ysgrifenwyr ifanc dawnus weithio gyda'i gilydd, yn aml gydag awduron a beirdd proffesiynol, i ymestyn eu medrau ysgrifennu. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig theatr ieuenctid, sgwadiau'r celfyddydau gweledol a chanolfannau rhagoriaeth chwaraeon. Mae awdurdodau lleol yn aml yn sicrhau bod y sesiynau hyn yn cael eu cyflwyno'n effeithiol trwy ddefnyddio beirdd ac arlunwyr lleol, neu athrawon arbenigol. Mae disgyblion yn aml yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel yn sgil y sesiynau hyn, sydd wedyn yn cael ei arddangos mewn canolfannau, fel llyfrgelloedd lleol.

53 Gyda rhai eithriadau, ychydig iawn o wybodaeth sydd gan gydlynwyr awdurdodau lleol am y gwaith y mae ysgolion unigol yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. O ganlyniad, ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n mynd ati i hyrwyddo rhannu arfer orau yn effeithiol rhwng ysgolion o fewn awdurdodau lleol ac ar eu traws. Mae rhai ysgolion ledled Cymru wedi sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol yn seiliedig ar glystyrau, gyda ffocws ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus i alluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i rannu arfer dda. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion wedi sefydlu'r cymunedau dysgu proffesiynol hyn eu hunain, ac er bod awdurdodau lleol yn gefnogol, ychydig iawn ohonynt yn unig sy'n darparu cymorth ac arweiniad penodol. Cafodd mwyafrif y cymunedau dysgu proffesiynol eu sefydlu'n ddiweddar ac nid oes llawer o dystiolaeth eto o ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

54 Prin yw'r awdurdodau lleol sy'n cefnogi ysgolion yn ddigon da i arfarnu effaith strategaethau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus. Mae arfarniadau o welliannau mewn darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion yn aml yn anecdotaidd, bron bob amser yn ansoddol, ac yn anaml yn unig y cânt eu cefnogi gan ddata. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae diffyg trylwyredd yn y broses fonitro, ac nid yw'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion.

55 Nid yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r data sydd ar gael iddynt yn ddigon effeithiol i arfarnu'r cynnydd y mae disgyblion mwy abl yn ei wneud. Ni allai'r un awdurdod lleol a holwyd fel rhan o'r arolwg hwn ddarparu data penodol ar berfformiad disgyblion y nodwyd eu bod yn fwy abl a dawnus. Mae'r mwyafrif yn honni bod cyfran y

disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran wedi cynyddu mewn ysgolion lle mae ffocws wedi bod ar herio disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt ffordd systematig o fonitro hyn na'i gysylltu â strategaethau neu weithgareddau penodol yr ymgymerwyd â nhw. Pan fo awdurdodau lleol yn darparu targedau ar gyfer disgyblion yn seiliedig ar gyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (fel data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer), ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n gyson i olrhain cynnydd disgyblion mwy abl. Pan fo awdurdodau lleol yn dadansoddi deilliannau ym Mlwyddyn 6, mae hyn yn rhy hwyr i nodi a mynd i'r afael â thangyflawniad disgyblion. Dim ond yn achlysurol y mae swyddogion gwella yn trafod y materion hyn yn ystod ymweliadau ag ysgolion ac anaml yn unig y rhoddir sylw i fonitro deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y disgyblion mwy abl a dawnus.

4 Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru

56 Mae'r cynnydd diweddar yn y modd y mae rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus wedi digwydd yn rhannol o ganlyniad i strategaeth a chyllid Llywodraeth Cymru.

57 Yn 2006, rhoddodd Llywodraeth Cymru £50,000 i ddatblygu safonau ansawdd ar gyfer addysg disgyblion mwy abl a dawnus, a gyhoeddwyd yn 'Ymateb i'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus'. Fe wnaeth y cyllid hefyd ddarparu hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion, a chefnogi cost y Dyfarniad Her a hyfforddi aseswyr awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo £30,000 arall i hwyluso hyfforddiant a chymorth pellach rhwng 2010 a 2013. Mae'r arweiniad a'r safonau yn ddefnyddiol ac yn cynnig ffordd ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol archwilio eu darpariaeth a chodi'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus.

58 Ers cyhoeddi'r safonau ansawdd, mae llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi codi proffil addysg disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i'r grŵp hwn o ddisgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol am arwain datblygiadau yn y maes hwn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus bellach yn nodwedd o lawer o gynlluniau gwella ysgolion ac mae llawer o awdurdodau lleol yn awgrymu bod cyhoeddi'r arweiniad wedi eu hannog i gynnwys y mater mewn cynlluniau strategol ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, tua hanner yr awdurdodau lleol yn unig sy'n sôn am anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc diweddaraf a gyhoeddwyd.

59 Mae cynrychiolwyr o bron pob awdurdod lleol wedi mynychu cynadleddau neu wedi cael hyfforddiant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE). Mae'r cynadleddau cenedlaethol hyn a'r hyfforddiant yn darparu cyfleoedd da i ysgolion ac awdurdodau lleol rannu syniadau ac arfer orau a chodi cwestiynau gydag arbenigwyr yn y maes. Fodd bynnag, mae effaith yr hyfforddiant hwn ar ysgolion wedi bod yn amrywiol. Pan fo ymgynghorwyr awdurdodau lleol wedi lledaenu cyngor a hyfforddiant yn llwyddiannus, mae ysgolion yn yr awdurdod wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer eu disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw hyn wedi cael ei gynnal oherwydd bod personél a gafodd hyfforddiant yn wreiddiol wedi symud ymlaen neu ymddeol ac nid yw eu holynwyr bob amser wedi cael hyfforddiant diweddaru. Mae hyn yn golygu, er bod ystod dderbyniol o ddarpariaeth sydd weithiau'n dda ar gael i ddisgyblion mewn rhai awdurdodau, mae anghydraddoldeb sylweddol ledled Cymru.

Nid yw rhai awdurdodau lleol wedi manteisio'n llawn ar yr hyfforddiant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn ymwybodol o'r arweiniad sydd ar gael. Mae hyn yn golygu nad ydynt wedi blaenoriaethu eu camau i ymateb mor effeithiol ag y bo modd i'r strategaeth a'r arweiniad cenedlaethol.

60 Mae bron pob un o'r ysgolion lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn dda yn defnyddio'r safonau ansawdd i gefnogi eu gwaith. Maent yn defnyddio'r ddogfennaeth yn effeithiol i arwain a chefnogi staff yn eu gwaith gyda

disgyblion mwy abl a dawnus. Mae uwch arweinwyr a chydlynwyr yn ei defnyddio i gynllunio deunyddiau hyfforddi, ac o ganlyniad, mae ysgolion ac athrawon wedi cael negeseuon cyson ynglŷn â sut i wella'r ddarpariaeth.

61 Mae mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn defnyddio'r arweiniad fel cyfrwng archwilio neu hunanasesu i arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Dywed yr ysgolion hyn fod safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn rhoi sylfaen gadarn iddynt weithio ohoni. Ychydig iawn yn unig o ysgolion ledled Cymru sydd wedi dewis cael eu hasesu ar gyfer Dyfarniad Her y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, a ddyfernir i ysgolion sy'n cyrraedd y safonau yn 'Ymateb i'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus' (Llywodraeth Cymru/y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, 2008). Mae saith ysgol wedi ennill y Dyfarniad Her hyd yn hyn. Mae pedair ysgol yn aros i gael eu hachredu a deg ysgol arall yn gweithio tuag ato. Yn yr ysgolion hyn, mae'r broses wedi canolbwyntio ar ymdrechion yr ysgol i sicrhau safonau uchel ar gyfer disgyblion, gan ddod â staff at ei gilydd yn eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cysondeb ar draws yr ysgol, gan ddathlu eu llwyddiant gyda rhieni a'r gymuned a rhannu eu profiadau gydag ysgolion eraill. Mae ysgolion sy'n defnyddio'r arweiniad yn effeithiol, ond yn dewis peidio â chael eu hasesu ar gyfer y dyfarniad, yn aml yn datblygu darpariaeth dda neu well serch hynny. Nid yw dewis peidio â chael eich asesu yn golygu o reidrwydd nad yw gwelliannau yn cael eu harwain yn dda neu'u monitro'n drylwyr. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae arweinwyr a staff wedi ymrwymo'n llawn i godi safonau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

62 Mae llawer o'r ysgolion a'r awdurdodau lleol mwyaf llwyddiannus wedi datblygu'r strategaethau y maent yn eu defnyddio gyda disgyblion mwy abl a dawnus dros gyfnod o sawl blwyddyn. Maent wedi defnyddio'r safonau ansawdd i helpu archwilio a mireinio eu harferion hyd yn oed ymhellach, ac mewn rhai achosion, yn paratoi i asesu ar gyfer y Dyfarniad Her. Cadarnhaodd yr arolwg fod y rhan fwyaf o'r ysgolion, ond nid pob un, a oedd wedi ennill y Dyfarniad Her, neu'n gweithio tuag ato, wedi datblygu darpariaeth dda sydd weithiau'n rhagorol a oedd, bron ym mhob achos, yn arwain at welliannau yn safonau disgyblion.

63 Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i ddadansoddi ac arfarnu effaith y gwelliannau a wna ysgolion ac awdurdodau lleol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

Atodiad 1

Sail y dystiolaeth

Wrth lunio'r adroddiad hwn, fe wnaethom ddefnyddio tystiolaeth arolygu o adroddiadau arolygu cynradd ac ystyried data ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 ar gyfer y cyfnod 2008-2010.

Fe wnaethom ymweld â sampl gynrychioliadol o 16 o ysgolion cynradd, ysgolion babanod neu ysgolion iau ledled Cymru, clwstwr cynradd/uwchradd a phedwar awdurdod lleol. Fe wnaethom hefyd ystyried tystiolaeth ysgrifenedig o 13 awdurdod lleol arall.

Cawsom safbwyntiau dysgwyr trwy ofyn i sampl o ddisgyblion ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw lenwi holiaduron a thrwy siarad â sampl o ddisgyblion ym mhob un o'r ysgolion. Fe wnaethom gyfweld â chynrychiolwyr o'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE).

Fe wnaethom adolygu'r llenyddiaeth ganlynol:

- 'Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad' (ACCAC 2003);
- 'Addysgu Disgyblion sy'n Fwy Abl a Thalentog: Cyfarwyddyd ar gyfer Awdurdodau Lleol' (Llywodraeth Cymru 2003);
- 'Ymateb i'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus' (Llywodraeth Cymru/NACE 2008);
- 'Arloesedd yng nghyfnod allweddol 3' (Estyn 2010);
- 'Sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial: arfarniad o strategaethau awdurdodau lleol' (Estyn 2010);
- 'Cynlluniau a grant pontio: arfarniad o effaith cynlluniau a grant pontio ar bartneriaethau ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3' (Estyn 2010);
- 'Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3' (Estyn 2010);
- 'Arfer orau mewn mathemateg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 7 oed' (Estyn 2009);
- 'Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed' (Estyn 2009);
- 'Adroddiad ar ansawdd hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn anghenion dysgu ychwanegol a gweithio gydag eraill' (Estyn 2009);
- Adroddiad Blynyddol Estyn 2008, 2009 a 2010;
- 'Arweiniad atodol i arolygwyr: dysgwyr mwy abl a dawnus' (Estyn 2010);
- Bradshaw, J., Sturman, L., Vappula, V., Ager, R. a Wheater, R. (2007). 'Achievement of 15-year-olds in Wales: PISA 2006 National Report (OECD Programme for International Student Assessment)' Slough: NFER;
- Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. a Wheater, R. (2010). PISA 2009: 'Achievement of 15-year-olds in Wales'. Slough: NFER;
- Adroddiad PISA 2006 a 2010;
- Astudiaethau achos NACE o ysgolion yng Nghymru sydd wedi cyflawni Dyfarniad Her NACE neu'n gweithio tuag ato;

- Arfarniadau NACE o'r rhaglen hyfforddi a ddarperir ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol; a
- Sampl gynrychioliadol o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc a Chynlluniau Strategol Addysg awdurdodau lleol.

Cawsom wybodaeth hefyd o wledydd Ewropeaidd sy'n aelodau o'r Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog o Arolygiaethau.

Atodiad 2

Enghreifftiau o'r modd y mae gwahanol wledydd Ewropeaidd yn cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus

Mae'r strategaethau isod yn gymharol newydd. O ganlyniad, ni ellir llunio unrhyw gasgliadau pendant am lwyddiant cymharol y gwahanol ymagweddau. Fodd bynnag, gellir eu cymharu â system Cymru ac maent yn rhywbeth y gellir myfyrio amdanynt. Mae'n amlwg bod llawer o'n cymheiriaid Ewropeaidd hefyd yn chwilio am y ffordd fwyaf effeithiol o addysgu eu dysgwyr mwy abl a dawnus.

Yn yr Almaen, mae pob ardal yn troi un o'i hysgolion cynradd yn Entdeckertagsschulen (Ysgol Ddydd i Ddarganfod) am ddiwrnod bob wythnos. Mae'r ysgolion hyn yn cynnig hyfforddiant, tasgau a gweithdai arbennig ar gyfer disgyblion dawnus a galluog. Mae disgyblion o ysgolion cyfagos yn mynychu'r rhain yn lle eu hysgolion arferol ar y diwrnod hwnnw. Mae arbenigwyr mewn pwnc penodol yn darparu adnoddau ac fe gaiff athrawon eu hyfforddi i asesu eu hanghenion dysgu. Mae'r rhaglen wedi bod ar waith ers tua dwy flynedd ac ni chynhaliwyd unrhyw arfarniad o'r deilliannau hyd yn hyn.

Gall disgyblion yn yr Iseldiroedd rhwng pedair a 12 oed sydd ag IQ o 130 neu'n uwch fynychu ysgol Leonardo. Mae cwricwlwm Leonardo wedi'i gynllunio i fod yn addas ar gyfer diddordebau a galluoedd y plant abl iawn hyn. Mae'r ysgol yn defnyddio athrawon arbenigol i ddarparu gwersi yn Saesneg o bedair blwydd oed a Sbaeneg o wyth mlwydd oed, yn ogystal ag athroniaeth, cyfrifiadureg, mathemateg, busnes a menter. Mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn y maent am ei ddysgu a rhoddir pwyslais ar gael disgyblion i ddysgu dysgu. Mae gwersi mewn medrau cymdeithasol, cerddoriaeth a dawns yn nodweddion pwysig o'r cwricwlwm ac mae disgyblion yn dysgu chwarae gemau strategaeth, fel gwyddbwyll. Mae'r ysgol yn rhoi gliniadur i bob disgybl gyda mynediad diwifr i'r rhyngrwyd i'w ddefnyddio yn yr ysgol a gartref i wella eu medrau TG ac annog defnyddio cyfryngau newydd.

Yn yr Alban, caiff ysgolion eu hannog i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn y dosbarth trwy weddu'r gwaith yn agos i'w hanghenion a'u galluoedd. Mae Prifysgol Glasgow yn rhoi cymorth i athrawon, disgyblion mwy abl a'u teuluoedd trwy wefan Rhwydwaith yr Alban ar gyfer Disgyblion Abl (SNAP).

Yng Ngweriniaeth Tsiec, caiff y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ei harwain gan ddeddfwriaeth. Disgwylir i bob ysgol ddatblygu ei rhaglen ei hun. Mewn rhai achosion, mae gan y disgyblion hyn gynlluniau addysg unigol. Gall pennaeth

ysgol symud disgybl mwy abl i ddosbarth blwyddyn uwch, ond cyn gwneud hyn, rhaid i'r disgybl gael ei brofi gan banel sy'n cynnwys tri o bobl o leiaf.

Mae ysgolion yng Ngwlad Belg yn rhydd i drefnu eu dulliau eu hunain i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus. Gyda chytundeb rhieni, mae disgyblion mwy abl weithiau'n dechrau'r ysgol gynradd flwyddyn yn gynharach na'r arfer, ond mae angen iddynt gael eu hasesu'n annibynnol cyn gwneud hynny. Mewn rhai ysgolion, mae arbenigwyr yn addysgu disgyblion mwy abl mewn grwpiau bach, oedran cymysg am ychydig o oriau bob wythnos. Mae ysgolion eraill yn addasu'r cwricwlwm a gallent addysgu disgyblion mwy abl gyda phlant hŷn. Mae addysgwyr yng Ngwlad Belg yn cydnabod er bod llawer o ddisgyblion yn ymdopi â hyn, mae disgyblion eraill yn cael trafferth â hyn yn gymdeithasol ac nid ydynt yn cyflawni cystal ag y gallent pe byddent wedi aros gyda'u cyfoedion. Mae rhai ysgolion yn cydnabod hyn ac yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion ochr yn ochr â'u haddysg academaidd.

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Sarah J Morgan AEM
Lynda Newton AY
Janet Waldron AY